# *Cefnogi Newid*: Gwisg Ysgol

Astudiaeth Achos 7

## Gwybodaeth

**Ysgol Gynradd Jubilee Park, Casnewydd**

373 o Ddysgwyr

6% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

## Y prif feysydd o dan sylw

- ✓ Cost a fforddiadwyedd
- ✓ Ailgylchu

## Yr Angen a Amlygwyd

Roedd gennym bob amser ormodedd o eitemau gwisg ysgol ail law o ansawdd da. O'r blaen, byddem yn eu cadw i'w gwerthu yn ffair haf yr ysgol. Roeddem am gael ffordd well o ddefnyddio'r eitemau hyn a dileu'r stigma posib sy'n gysylltiedig â defnyddio eitemau ail law.

## Cost y newid

£200 ar gyfer yr uned arddangos/storio

## Camau a gymerir

- ✓ **Gosod** uned i arddangos yr eitemau ail law **yng nghyntedd yr ysgol,** gan ganiatáu **mynediad hwylus** i'r rhieni ar unrhyw adeg
- ✓ Sefydlu system côd bar gyda **phrisiau isel, hwylus**
- ✓ Sefydlu côd QR ar gyfer **taliadau di-arian.** Gall y rhieni **dalu pan fynnant, heb bwysau** o ran amser na chost yr eitem
- ✓ Sefydlu **man cyfrannu hawdd ei gyrchu**
- ✓ **Cyfathrebu'n rheolaidd** â'r rhieni ynghylch y cynllun a'u hannog i'w ddefnyddio

## Pwy sy'n cymryd rhan?

- ✓ Rhieni a gofalwyr
- ✓ Aelod o'r staff

**Rhieni / Gofalwyr:** Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn rhoi eitemau i'r ysgol ac mae mwy a mwy ohonynt yn defnyddio gwisg ysgol ail law.

**Aelod o'r staff:** Enwebwyd aelod o'r staff i gadw'r lle yn daclus, rhoi trefn ar y cyfraniadau ac ailgyflenwi'r stoc yn yr uned arddangos. Rydyn ni'n ffodus bod aelod brwd o staff oedd wedi ymgymryd â'r rôl yma – roedd mawr angen hynny

## Effaith a chanlyniadau

- ✓ Gwisg ysgol ar gael **yn llawer rhatach neu** hyd yn oed **am ddim**
- ✓ Mae'r rhieni'n **ymateb yn dda** ac yn teimlo'n gyffyrddus ynghylch defnyddio'r wisg
- ✓ **Mae'r rhieni'n fwy cyffyrddus yn defnyddio'r cyntedd yn hytrach na phrynu eitemau yn gyhoeddus yn y ffair**
- ✓ Mae ailgylchu yn golygu bod llai o wastraff yn cyrraedd safleoedd tirlenwi

## Y rhwystrau a gafodd sylw

Dim rhwystrau fel y cyfryw, ond mae rhieni bellach yn fwy tebygol o sicrhau gwisg ysgol ail law yn y ffordd yma, yn hytrach na'i phrynu'n fwy cyhoeddus yn ffair yr ysgol.

## Cyngor i ysgolion eraill

Mae rhieni na fyddem wedi disgwyl bod angen gwisg ysgol ail law arnynt wedi dweud eu bod yn ddiolchgar iawn am y gwasanaeth, sydd wedi gwneud i ni sylweddoli nad ydyn ni'n gwybod holl amgylchiadau personol ein teuluoedd

## Eisiau gwybod mwy?

Gallwch gysylltu â'r ysgol i gael rhagor o wybodaeth am y dull gweithredu:
sladen9@newposrtschools.wales

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES